S4/C

Polisi S4C ar ryddhau hawliau dal yn ôl yn gynnar

Medi 2009

S4/C

Cyflwyniad

Yn unol â gofynion Adran 285 Deddf Cyfathrebu 2003, mae S4C wedi nodi'r egwyddorion a weithredir pan fydd cynnwys yn cael ei gomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol, mewn Cod Ymarfer a gymeradwywyd gan Ofcom.

Yn ogystal, mae canllawiau Ofcom ynghylch llunio Cod Ymarfer yn disgwyl i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu polisi ffurfiol ar gyfer rhyddhau yn gynnar, y cyfnod pan fydd gan y darlledwr comisiynu hawliau ecsgliwsif (y cyfeirir ato fel y cyfnod dal yn ôl) mewn cysylltiad â rhaglen a gomisiynwyd.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion a weithredir gan S4C wrth ystyried ceisiadau i adolygu a/neu ildio'i chyfnod dal yn ôl ecsgliwsif, gan amlinellu'r weithdrefn a'r amserlen awgrymedig ynghylch prosesu cais hefyd.

1 Cod Ymarfer S4C

1.1 Mae Cod Ymarfer S4C, o'i ddarllen gyda'r Telerau Masnach manylach, yn cynnig telerau eglur a chynhwysfawr i gynhyrchwyr ynghylch y berthynas gomisiynu a'r berthynas fusnes.

1.2 Ar gyfer mwyafrif y *genres*, mae'r Cod Ymarfer yn caniatáu cyfnod pum mlynedd ecsgliwsif i S4C i ddarlledu yn y Deyrnas Unedig. Yn achos rhaglenni plant a rhaglenni addysg, mae gan S4C drwydded ddarlledu sy'n para saith mlynedd, er bod y cyfnod dal yn ôl yn bum mlynedd.

1.3 Mae cyfnod dal yn ôl yn sicrhau bod S4C:

- Yn diogelu natur ecsgliwsif yr hawliau a sicrhawyd gan S4C am gyfnod rhesymol, gan ehangu'r gynulleidfa bosibl ar gyfer rhaglenni Cymraeg mewn amgylchedd cystadleuol ac aml-lwyfan gymaint ag y bo modd,
- Yn cynyddu gwerth y buddsoddiad yn y rhaglenni gymaint ag y bo modd,
- Yn sicrhau fframwaith agored, cyson a thryloyw ar gyfer buddsoddiad S4C yn ei rhaglenni.

1.4 Ar gyfer pob *genre* bydd cyfnod dal yn ôl S4C yn ymestyn o'r dyddiad pan gaiff y rhaglen ei chreu, i'r dyddiad pan fydd pum mlynedd wedi mynd heibio ers darllediad cyntaf y rhaglen.

1.5 Yn achos cyfres, bydd y cyfnod dal yn ôl yn ymestyn o ddiwedd y pum' mlynedd o'r dyddiad pan ddarlledwyd pennod olaf y gyfres am y tro cyntaf.

1.6 Pan wneir penderfyniad i ail gomisiynu rhaglen neu gyfres, oni gytunir fel arall, bydd y cyfnod dal yn ôl mewn perthynas â'r holl raglenni yn y gyfres flaenorol yn ailgychwyn, gan ddod i ben ar yr un adeg â'r cyfnod dal yn ôl ar gyfer y gyfres newydd.

1.7 Yn achos cymwysiadau a defnydd ar-lein, gwe-ddarlledu neu fideo ar alw, bydd gan S4C yr hawl i fanteisio ar ffenestr ddal yn ôl ecsgliwsif am dri deg pum diwrnod yn dilyn y dyddiad darlledu.

1.8 Ni fydd modd i'r cynhyrchydd fanteisio ar unrhyw weithgarwch ecsbloetio eilaidd o'r rhaglen (e.e. megis trwy gyfrwng DVD) yn y DU am saith diwrnod clir ar ôl darllediad cyntaf y rhaglen gan S4C (neu'r bennod olaf yn achos cyfres).

1.9 Mae'r cyfnodau dal yn ôl ynghylch gweithgarwch ecsbloetio gan y cynhyrchydd yn berthnasol i'r DU yn unig, ond mae'n rhaid i'r cynhyrchydd allu bodloni S4C na fydd unrhyw weithgarwch ecsbloetio y tu allan i'r DU, megis trwy gyfrwng y rhyngrwyd, technoleg symudol neu ddarlledu lloeren, yn arwain at sefyllfa lle y bydd modd gwylio'r rhaglen yn y DU yn ystod y cyfnod dal yn ôl.

2 Egwyddorion sylfaenol ar gyfer rhyddhau hawliau dal yn ôl yn gynnar

2.1 Er bod y Cod Ymarfer yn diogelu natur ecsgliwsif yr hawliau a fydd yn ofynnol gan S4C, mae'r polisi ynghylch rhyddhau hawliau dal yn ôl yn gynnar, yn cynnig yr hyblygrwydd a'r cwmpas i'r cynhyrchydd fanteisio ar gyfleoedd ecsbloetio, gan gynnwys cyd-gynhyrchu, ail fersiynu cynnwys, gweithgarwch ecsbloetio eilaidd o fewn y DU neu'r cyfle i ffurfio partneriaethau newydd.

2.2 Yn unol â disgresiwn S4C, bydd modd rhyddhau'r hawliau dal yn ôl yn gyfan gwbl neu eu cadw mewn grym, ond gydag S4C yn cytuno na fydd achosion penodol o weithgarwch ecsbloetio ynghylch telerau penodol yn cyfateb â thorri'r amodau. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r meini prawf er mwyn ystyried yr hawliau dal yn ôl.

2.3 Os bydd S4C yn cytuno i ryddhau'r hawliau dal yn ôl yn gynnar, neu eithriadau iddynt, bydd ganddi'r hawl o hyd i arfer yr hawliau sy'n weddill ac y mae'n meddu arnynt yn y cynnwys a gomisiynwyd.

3 Meini prawf ar gyfer gwneud cais i ryddhau hawliau dal yn ôl yn gynnar

3.1 Bydd S4C yn ystyried rhyddhau'r hawliau dal yn ôl yn gynnar ar yr amod na fydd eu rhyddhau'n gynnar, ym marn S4C, yn tanseilio natur ecsgliwsif y rhaglen ar gyfer y gynulleidfa y bwriadwyd y rhaglen ar ei chyfer, nac yn dibrisio'r buddsoddiad a wnaethpwyd gan S4C (e.e. gallai lefel yr hyblygrwydd wrth drafod y cyfnod dal yn ôl ar gyfer buddsoddiad o bwys neu ar lefel uchel, fod yn gyfyngedig).

3.2 Bydd S4C yn disgwyl cael ei digolledu am gytuno i ryddhau unrhyw hawliau dal yn ôl yn gynnar. Gallai'r digolledia d gynnwys gostyngiad yn lefel ffi'r drwydded a delir, ymestyn hyd cyfnod y drwydded, sicrhau nifer uwch o ddarllediadau, adolygu'r gyfran o incwm net o weithgarwch gwerthu penodol a/neu gyfran uwch o incwm net.

4 Y broses er mwyn gwneud cais am ryddhau'r hawl yn gynnar

4.1 Dylai cynrychiolydd swyddogol y cwmni cynhyrchu sy'n berchen ar yr hawliau sylfaenol wneud unrhyw gais am ryddhau'r hawliau dal yn ôl yn gynnar.

4.2 Dylai'r ceisiadau fod yn rhai electronig, a dylid eu hanfon mewn neges e-bost at gyfeiriad penodedig:- window@s4c.co.uk

4.3 Nid oes ffurf benodedig ar gyfer ceisiadau, ond dylai pob un gynnwys y wybodaeth ganlynol yn eu ceisiadau:

- Gwybodaeth am y cytundeb, gan gynnwys cyfeirnod unigryw'r rhaglen/y gyfres;
- Y trefniadau ar gyfer dal yn ôl yn y cytundeb;
- Pan wneir y cais cyn llofnodi'r cytundeb (e.e. ar gyfer cynnwys wedi'i gyd-gynhyrchu neu pan sicrhawyd trefniant cyn-werthu), manylion y rhaglen a manylion y golygydd cynnwys ar gyfer y broses gomisiynu;
- Y rhesymau dros wneud cais (dylai'r cynhyrchydd sicrhau ei fod yn darparu'r wybodaeth ofynnol er mwyn asesu'r cais e.e. manylion a dyddiadau darlledu arfaethedig pan fo'r cynhyrchydd wedi ennyn diddordeb darlledwr arall yn y DU, ydi'r cynllun ymelwa yn cynnig budd i S4C);
- Cynigion ynghylch digolledu S4C am ryddhau'r hawliau dal yn ôl yn gynnar.

4.4 Bydd pob cais yn cael ei gydnabod cyn pen pum diwrnod gwaith. Hysbysir yr ymgeisydd:

4.4.1 pan na ddarparwyd digon o fanylion ynghylch y wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn prosesu'r cais;

4.4.2 o'r amserlen er mwyn ystyried y cais.

4.5 Hysbysir y cynhyrchydd o benderfyniad S4C cyn pen 20 diwrnod gwaith o gyflwyno'r cais (neu pan ofynnwyd am wybodaeth bellach, cyn pen 20 diwrnod gwaith o gael gwybodaeth bellach o'r fath).

4.6 Gwneir penderfyniad i adolygu'r cyfnod dal yn ôl yn unol â sicrhau llofnod ar drwydded neu ddiwygiad trwydded, a chan gynnwys yr amodau a thelerau perthnasol a nodir yn adran 5 y polisi hwn.

5 Amodau a thelerau rhyddhau cynnar

5.1 Bydd S4C yn disgwyl i'r cynhyrchydd osod rhwymedigaeth ar ei asiantau, ei ddosbarthwyr a/neu ei drwyddedigion:-

5.1.1 I sicrhau cymeradwyaeth S4C ar gyfer trwyddedigion posibl y bydd modd i'w gweithgarwch ecsbloetio o'r rhaglen (gan gynnwys, heb gyfyngiad, trwy gyfrwng technoleg symudol ac ar-lein) gael ei dderbyn yn y DU;

5.1.2 I sicrhau cymeradwyaeth S4C ar gyfer y dyddiad ecsbloetio cyntaf arfaethedig (ar ba lwyfan bynnag) ac unrhyw weithgarwch ailddarlledu neu weithgarwch ecsbloetio arall:

5.1.3 I sicrhau ar lefel gytundebol, na fydd gweithgarwch ecsbloetio parhaus S4C o'i hawliau yn y rhaglen (gan gynnwys yr hawl i ddarlledu'r rhaglen gydag isdeitlau a/neu drac sain Saesneg) yn amharu ar hawliau unrhyw drydydd parti yr amrywiwyd yr hawliau dal yn ôl er eu budd;

5.1.4 I gynnig cydnabyddiaeth o'r fath i S4C (fel arfer ar ffurf cydnabyddiaeth) ag y bydd S4C yn ei fynnu, a sicrhau cymeradwyaeth S4C ar gyfer unrhyw weithgarwch cyfathrebu sy'n gysylltiedig gyda'r darllediadau;

5.1.5 I gydymffurfio gyda darpariaethau eraill o'r fath sy'n briodol dan yr amgylchiadau, gan gynnwys trefniadau gweinyddu a chyfrifyddu ailddarllediadau.

6 Canllawiau adolygu hawliau dal yn ôl

6.1 Mae'r canlynol yn rhoi rhyw syniad o'r cyfnodau dal yn ôl a fyddai'n cael eu hystyried yn ofynion sylfaenol gan S4C. Ei ddiben yw cynnig canllaw yn unig, ac ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar S4C i gytuno i gais am ryddhau'r hawl yn gynnar:

6.1.1 Yn achos cynyrchiadau wedi'u cyd-ariannu, isafswm o ddeuddeg mis yn dilyn y darllediad cyntaf ar S4C. Byddai hyn yn cael ei drafod ym mhob achos, gan ddibynnu ar y ffactorau golygyddol ac ariannol sy'n ymwneud â'r gweithgarwch comisiynu, a'r meini prawf a amlinellwyd yn y Polisi hwn.

6.1.2 Yn achos cynnwys ar gyfer plant dan oed ysgol, isafswm o chwe mis yn dilyn y darllediad cyntaf ar S4C. Byddai hyn yn cael ei drafod ym mhob achos, gan ddibynnu ar y ffactorau golygyddol ac ariannol, a'r meini prawf a amlinellwyd yn y Polisi hwn.

6.1.3 Fel eithriad, efallai y bydd modd trafod rhaglenni penodol o fewn cyfres e.e. cynnwys thematig megis penodau Nadolig, ar wahân, a chynnig cyfnodau dal yn ôl llai ar eu cyfer.

6.1.4 Trafodir yr hawliau dal yn ôl mewn perthynas â gwefan sy'n gysylltiedig â rhaglen, ac a gomisiynwyd gan y cynhyrchydd, ar sail achosion unigol. Efallai na fydd hawliau dal yn ôl yn berthnasol o ystyried bod y dewisiadau ynghylch rheoli neu gyfyngu ar wefannau i diriogaethau penodol yn gyfyngedig, ac yn gallu bod yn ddrud. Ni fyddai hyn yn berthnasol ar gyfer cynnwys o fewn gwefannau oherwydd ei fod yn cael ei dybio bod modd rheoli'r hawliau er mwyn darlledu o fewn tiriogaethau (h.y. geo-flocio).

7 Materion neu anghydfodau sy'n ymwneud â'r Polisi hwn

Rheolir materion neu anghydfodau sy'n ymwneud â gweithrediad y Polisi hwn yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yng Nghod Ymarfer a Thelerau Masnach S4C.

8 Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd, ac o leiaf unwaith bob tair blynedd. Cyhoeddir y polisi, ac fe fydd ar gael ar Wefan Cynhyrchu S4C – Polisïau a Chanllawiau.